Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo
ADEILADU FFYNIANT A CHYFLEOEDD

## MANYLEB PERSON

### Sgiliau, Gwybodaeth a Phrofiad

### Hanfodol

**Profiad:**

- Yn gallu dangos profiad o gryfhau mentrau cymdeithasol a grwpiau gwirfoddol/cymunedol yn llwyddiannus.
- Hanes profedig o weithio mewn partneriaeth i gyflawni amcanion adfywio cymunedol.
- Tystiolaeth o brofiad yn rheoli prosiectau/rhaglenni, gan gynnwys cyllidebau a monitro allbwn/canlyniadau.
- Gallu profedig i gefnogi a chynorthwyo grwpiau i gael mynediad at gyllid neu fuddsoddiad a dealltwriaeth o gymhwysedd a sicrhau ansawdd sy'n gysylltiedig â mynediad at fuddsoddiad.

**Gwybodaeth:**

- Gwybodaeth fanwl o'r materion adfywio sy'n wynebu cymunedau meysydd glo. Dylech fod yn gwbl ymwybodol o'r polisi adfywio presennol a'r cyfundrefnau cyllido a sut mae'r rhain yn cael eu cyflawni ar lefelau rhanbarthol a lleol yn ardaloedd meysydd glo Cymru.

**Sgiliau a Chymwyseddau**

- Dealltwriaeth fanwl o ddylunio a chostau prosiectau, gan gynnwys costau, allbynnau a cherrig milltir a ragwelir, gyda'r gallu i weithio ochr yn ochr ag ymgeiswyr i fireinio cynlluniau, cryfhau capasiti cyflawni a nodi atebion ymarferol i gefnogi’r gallu i weithredu’n llwyddiannus.
- Y gallu i gasglu, dadansoddi a thrin data’n gywir.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn ysgrifenedig ac ar lafar yn ogystal â phrofiad o wneud cyflwyniadau i grwpiau o wahanol feintiau a chefndiroedd, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau (gan gynnwys ar-lein).
- Hyderus a chymwys wrth gynhyrchu adroddiadau.
- Yn gymwys yn Microsoft Office a Microsoft Teams / Zoom.
- Y gallu i weithio'n effeithiol ar eich pen eich hun, gan gynnal lefel uchel o ymrwymiad trwy hunan-gymhelliant a threfnu amser yn systematig ac yn effeithlon.

**Teithio:**

- Trwydded yrru lawn a mynediad at gerbyd dibynadwy neu’r gallu i deithio'n effeithlon ar gyfer ystod eich dyletswyddau, ledled y Deyrnas Unedig.
- Efallai y bydd angen teithio’n achlysurol y tu allan i Gymru.

### Dymunol

**Profiad:**

- Profiad o gefnogi sefydliad cymunedol gyda Throsglwyddiad Asedau Cymunedol.
- Profiad o gyflwyno hyfforddiant/gweithdai naill ai'n bersonol bresennol, neu ar-lein.
- Profiad o reoli sianeli cyfathrebu digidol gan gynnwys Facebook, Twitter, LinkedIn a YouTube.

**Sgiliau a Chymwyseddau**

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Y gallu i roi ystyriaeth briodol i ddeunyddiau, gweithdai a gweithgareddau ymgysylltu hygyrch a chynhwysol sy'n wynebu'r cyhoedd, gan gynnwys gofynion iaith Gymraeg.

## Priodweddau Personol

- Trefnus iawn.
- Cydwybodol gydag agwedd gadarnhaol.
- Yn gyfforddus yn gweithio'n annibynnol ac o fewn tîm.
- Parodrwydd i weithio'n hyblyg fel rhan o dîm proffesiynol iawn er mwyn cwrdd â gofynion llwyth gwaith, gan gynnwys gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol.
- Wedi'i yrru gan werthoedd ac wedi'i alinio â chenhadaeth Ymddiredolaeth Adfywio'r Meysydd Glo.

## Lleoliad o fewn strwythur Ymddiredolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Mae'r Swyddog Datblygu yn eistedd o fewn Tîm Datblygu Cymru ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni rhaglen Gymorth Tmddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo.

Mae'r rôl yn sicrhau:
- Bod gan fuddiolwyr fynediad di-dor at gyngor a chymorth arbenigol o ansawdd uchel ar berchnogaeth gymunedol a throsglwyddo asedau cymunedol.
- Bod asedau a gwasanaethau cymunedol o fewn hen gymunedau'r maes glo yn cael eu diogelu a'u gwarchod.
- Bod canolfan ragoriaeth gydnabyddedig ar gyfer perchnogaeth gymunedol yn cael ei sefydlu a'i chynnal.
- Bod etifeddiaeth barhaol o adnoddau'n parhau i fod ar gael i gymunedau y tu hwnt i oes y prosiect.
- Bod arfer gorau ynghylch perchnogaeth gymunedol a throsglwyddo asedau cymunedol yn cael ei ddyrchafu a'i rannu'n weithredol ledled Cymru.

Mae'n galluogi'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i sicrhau bod Cymorth Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo'n cael ei ddarparu i safon uchel a bod asedau cymunedol yn cael eu diogelu'n gadarn.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND